OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 524 (Cy.50)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Dofednod (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*26 Chwefror 2008*
Yn dod i rym - -	*25 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**).

RHAN 1

Rhagarweiniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Dofednod (Cymru) 2008, mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 25 Mawrth 2008.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "bridiwr cig" ("*meat breeder*") yw dofednyn a gedwir er mwyn cynhyrchu wyau y bwriedir peri gori arnynt a'u deor i gynhyrchu cywion—

(a) a gaiff eu magu i gynhyrchu cig i'w fwyta gan bobl, neu

(b) y caiff eu hepil eu magu i gynhyrchu cig i'w fwyta gan bobl;

ystyr "cyw" ("*chick*") yw aderyn sy'n llai na 72 awr oed nad yw wedi cael bwyd;

ystyr "dodwywr fridiwr" ("*layer breeder*") yw dofednyn a gedwir er mwyn cynhyrchu wyau y bwriedir peri gori arnynt a'u deor i gynhyrchu cywion—

(**1**) 1981 p.22.

(**2**) *Gweler* adran 86(1) am ddiffiniad o "the Ministers". Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.

(a) a gaiff eu magu i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl, neu

(b) y caiff eu hepil eu magu i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw adar o'r rhywogaeth *Gallus gallus*, tyrcwn, hwyaid a gwyddau.

ystyr "haid" ("*flock*") yw dofednod o'r un statws iechyd â'i gilydd a gedwir ar yr un daliad neu yn yr un caeadle, ac sy'n un uned epidemiolegol ar ei phen ei hun, ac sy'n cynnwys, yn achos dofednod a gaiff eu lletya, bob aderyn sy'n rhannu'r un gofod awyr;

ystyr "haid ddodwy" ("*laying flock*") yw haid o ddofednod a gedwir i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl;

ystyr "haid fridio" ("*breeding flock*") yw haid a gedwir i gynhyrchu wyau y bwriedir peri gori arnynt;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*") mewn perthynas ag unrhyw ddeorfa neu ddaliad, yw'r person sydd â gofal y ddeorfa neu'r daliad.

Yr awdurdod cymwys

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion —

(a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau bridio o *Gallus gallus* ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003(**3**);

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn ieir dodwy o Gallus gallus ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1003/2005(**4**); ac

(c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2006 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ar gyfer defnyddio dulliau rheoli penodol yn fframwaith y rhaglenni cenedlaethol ar gyfer rheoli salmonela mewn dofednod(**5**).

RHAN 2

Deorfeydd dofednod

Hysbysu am ddeorfeydd dofednod

4.—(1) Rhaid i feddiannydd deorfa ddofednod â chyfanswm capasiti deor o 1000 neu fwy o wyau hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth yn yr erthygl hon—

(a) o fewn tri mis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym; neu

(b) yn achos sefydlu'r cyfryw ddeorfa ar ôl y dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, o fewn tri mis ar ôl i'r ddeorfa gael ei sefydlu.

(2) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw newid i'r wybodaeth honno neu unrhyw ychwanegiad ati a hynny o fewn tri mis ar ôl gwneud y newid neu'r ychwanegiad.

(**3**) OJ Rhif L170, 1.7.2005, t.12 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006 (OJ Rhif L 211, 1.8.2006, t. 4).
(**4**) OJ Rhif L 211, 1.8.2006, t. 4.
(**5**) OJ Rhif L 212, 2.8.2006, t.3.

(3) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw feddiannydd sydd wedi hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth honno o dan unrhyw ddeddfiad arall.

(4) Yr wybodaeth sydd i'w rhoi yw—

(a) enw, cyfeiriad a Rhif ffôn y meddiannydd;

(b) cyfeiriad a Rhif ffôn y ddeorfa;

(c) capasiti deor y ddeorfa; ac

(ch) rhywogaeth y dofednod a ddeorwyd yn y ddeorfa.

Cofnodion mewn deorfa sy'n peri gori ar Gallus gallus

5. Os yw deorfa yn peri gori ar wyau o rywogaeth *Gallus gallus* a bod ganddi gapasiti o 1000 o wyau neu fwy, pan symudir wyau neu gywion i'r ddeorfa neu oddi arni rhaid i'r meddiannydd gofnodi—

(a) dyddiad y symud;

(b) nifer yr wyau neu'r cywion sy'n cael eu symud;

(c) a yw'r symud i'r ddeorfa neu oddi arni;

(ch) os yw'r symud yn symud oddi ar ddaliad, y daliad cyrchfan; a

(d) yn achos wyau a dducpwyd i'r ddeorfa i beri gori arnynt, y daliad tarddiad.

RHAN 3

Heidiau bridio neu heidiau dodwy

Hysbysu am heidiau bridio neu heidiau dodwy

6.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad lle y cedwir un neu fwy o heidiau bridio neu heidiau dodwy o 250 o leiaf o ddofednod o unrhyw un rhywogaeth unigol hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth yn yr erthygl hon—

(a) o fewn tri mis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym hwn; neu

(b) yn achos sefydlu'r cyfryw ddaliad ar ôl y dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym, o fewn tri mis ar ôl i'r daliad gael ei sefydlu.

(2) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw newid i'r wybodaeth honno neu unrhyw ychwanegiad ati a hynny o fewn tri mis ar ôl gwneud y newid neu'r ychwanegiad.

(3) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw feddiannydd sydd wedi hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth honno o dan unrhyw ddeddfiad arall.

(4) Yr wybodaeth sydd i'w rhoi yw—

(a) enw, cyfeiriad a Rhif ffôn y daliad;

(b) enw, cyfeiriad a Rhif ffôn y meddiannydd a pherchennog pob haid ar y daliad;

(c) nifer yr heidiau ar y daliad;

(ch) ar gyfer pob haid—

(i) dull adnabod yr haid;

(ii) ai haid fridio yntau haid ddodwy ydyw;

(iii) y rhywogaeth;

(iv) nifer y dofednod;

(d) ar gyfer pob haid fridio—

(i) ai haid o ddodwywyr fridwyr yntau o fridwyr cig ydyw; a

(ii) statws yr haid yn y pyramid bridio.

Heidiau bridio neu heidiau dodwy o'r rhywogaeth *Gallus gallus*

7. Mae'r Atodlen (heidiau bridio neu heidiau dodwy o'r rhywogaeth *Gallus gallus*) yn cael ei heffaith.

Gwahardd defnyddio gwrthficrobiaid

8. Ni chaiff neb roi unrhyw wrthficrobiad i unrhyw aderyn o'r rhywogaeth *Gallus gallus* fel dull penodol o reoli salmonela a hynny'n groes i Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2006 (defnyddio gwrthficrobiaid).

Gwahardd defnyddio brechlynnau

9. Ni chaiff neb roi unrhyw frechlyn salmonela byw i unrhyw aderyn o'r rhywogaeth *Gallus gallus* yn groes i Erthygl 3(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2006 (defnyddio brechlynnau).

RHAN 4

Amrywiol

Cofnodion

10. Rhaid i unrhyw berson sy'n gorfod cadw cofnod o dan y Gorchymyn hwn ei gadw am ddwy flynedd ar ôl dyddiad ei wneud a rhaid iddo'i ddangos i un o arolygwyr neu un o swyddogion Gweinidogion Cymru pan ofynnir iddo wneud hynny a chaniatáu gwneud copi neu gymryd echdyniad ohono.

Ymyrryd â samplau

11. Rhaid i berson beidio ag ymyrryd â sampl na gwneud unrhyw beth iddo sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad unrhyw brawf y mae'n ofynnol ei wneud o dan y Gorchymyn hwn, ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn hwn.

Pwerau Gweinidogion Cymru mewn achosion o fethu â chydymffurfio

12. Os bydd unrhyw berson yn methu â chymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol gan y Gorchymyn hwn, caiff arolygydd drefnu i'r cyfryw gamau gael eu cymryd ar draul y person sydd wedi methu â chydymffurfio.

Gorfodi

13.—(1) Yr awdurdod lleol sydd yn gorfodi'r Gorchymyn hwn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu ag unrhyw achos penodol, mai Gweinidogion Cymru yn hytrach na'r awdurdod lleol fydd yn gorfodi'r Gorchymyn hwn.